

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer, 19 Chwefror 2013**

**Presennol:** Dafydd Williams (Cadeirydd), Linda Morris (is-gadeirydd), Gwyn Roberts, John Morris, Emyr Jones, Y Cyngorydd Alan Evans, Lis Puw (Clerc)

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a derbyniwyd ymddiheuriad Mr Emyr Jones.
2. Nid oedd datganiadau o ddiddordeb / buddiant mewn materion ar yr agenda.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan y cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Rhagfyr 11, 2012 ar ôl ychwanegu enw Mr Emyr Jones at y rhai oedd yn bresennol.
5. Materion yn codi o'r Cofnodion:
  - i. Cytunwyd i wahodd tendrau oeddi wrth 5 person lleol ar gyfer torri gwair y fynwent. Cytunwyd ar yr anghenion. Cytunodd y Cyngorydd Sir ofyn i gontractwyr lleol i ddod a phridd i lenwi yn ymyl y wal, gan nad oes teulu ar ôl i ymgymryd â'r gwaith. Cytunwyd i drafod archwilio diogelwch y fynwent ar ôl apwyntio'r sawl fydd yn torri gwair.
  - ii. Bin wrth Tŷ Isaf - adroddodd y Cyngh. Alan Evans ei fod yn cyfarfod y swyddog perthnasol eto'r wythnos hon.
  - iii. Cyflwr y ffordd rhwng Pantronnen a Choed y Glyn - adroddodd y Cyngh. Alan Evans fod y tyllau wedi eu llenwi dros dro ac y cafodd addewid y byddai trwsio trylwyr yn digwydd unwaith i'r loriau coed ddarfod cario dros y ffordd hon.

**6. Trafodwyd Gohebiaeth :**

**Parc Cenedlaethol Eryri**

Cytunodd y Cyngor i gymeradwyo cais Ystrad y Groes a Phant March . Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i newidiadau mewnol i Riwaedog.

**Llywodraeth Cymru**

Derbyniwyd gwybodaeth am Barth Menter Eryri.

**Un Llais Cymru**

Derbyniwyd y cylchgrawn a nodwyd eitemau yn ymwneud a thalu treth, gofalu am fynwentydd a'r angen i gofnodi polisi iaith y Cyngor.

**Cyngor Gwynedd**

Derbyniwyd rheolau cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus, Cofnodion 29/11/12 ar adroddiad i Ymgynghoriad ar dwrbeini yn Llŷn, a chanllawiau Ynni Gwynt ar y Tir.

**Scottish Renewables**

Derbyniwyd gwybodaeth am fferm wynt Dyfnant.

**7. Materion ariannol:**

- i. Cofnodwyd y penderfyniad i gadw Praesept eleni'r un fath a llynedd.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
- iii. Cytunwyd i ddigolledu'r Cadeirydd am deithio i gyfarfodydd Un Llais Cymru yn Nolgellau

- iv. Derbyniwyd gwybodaeth mai 'r haw li wario o dan Adran 137(4)(a) yw £6.98. Nodwyd mai 198 o etholwyr sydd yn y Gymuned a'r uchafswm o dan yr Adran hon yw £1,347.14. Ond nid oes cyfyngiad ar y gwario o dan y mesur 2011 Pwer Lles (Llywodraeth Cymru). Ystyriwyd ceisiadau am arian, a chytunwyd i gyfrannu yn y flwyddyn ariannol hon fel a ganlyn:

Ambiwlans Awyr Cymru	£50
Papur llafar y Deillion	£25
Eisteddfod Genedlaethol Dinbych	£50
Cwmni Bara Caws	£25
*Grŵp lleol Nyrsys Macmillan	£150

*\*Y penderfyniad oedd cyfrannu'n hael at un elusen deilwng leol eleni, gan edrych at gyfrannu at elusen leol arall y flwyddyn nesaf.*

Cytunwyd i gyfrannu £50 at Eisteddfod Llangywer, pe byddai cais am gyfraniad yn dod i law.

Cytunwyd i gyfrannu allan o gyllideb 2013-14 fel a ganlyn:

Neuadd Llangywer	£500
Eisteddfod Cylch Penllyn	£50
Ffermwyr Ieuan Meirionnydd	£50
Cymdeithas Glyn a Rhos	£100

8. Partneriaeth Penllyn - adroddodd y cynrychiolwyr ar y sefyllfa ddiweddaraf; cytunwyd i ymestyn Cytundeb Cyngor Gwynedd am flwyddyn; cytunwyd gyda'r syniad o ymgymryd am gyfnod ag asedau'r Parc Cenedlaethol ac awgrymwyd fod faniau masnachol sy'n dibynnu ar gyfleusterau'r Parc yn cyfrannu at eu cynnal a'u cadw.
9. Cafwyd trafodaeth ar flerwch wrth hel y biniau sbwriel, ond cafwyd gwybodaeth hefyd bod y gwaith yn cael ei wneud yn daclus mewn rhai mannau yn yr ardal. Addawodd y Cynghorydd Sir fynd a'r genadwri at yr adran berthnasol.
10. Cytunwyd i gyfarfod nesaf tua dechrau mis Mai.

*Amser gorffen: 9.15pm*